Cyflymu Busnesau Cymru



CANLLAW SECTOR

# Gwasanaethau ariannol a phroffesiynol

Busnes Cymru
Business Wales

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop**
**European Regional Development Fund**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



## Cynnwys

Mynediad amser real at wybodaeth a sefydliadau........ 4

Cael buddion technoleg ............................ 6

Gwasanaethu eich cleientiaid a'ch busnes yn well........ 8

Awgrymiadau.................................... 10

Manylion cyswllt ................................. 12



# Technoleg cyflym iawn ar gyfer ymateb amser real

Mae'r sector gwasanaethau ariannol a phroffesiynol ar fin cael hwb enfawr gan fand eang cyflym iawn. Bydd yr addewid o dderbyn gwybodaeth mewn amser real yn gwneud gwasanaethau'n fwy effeithlon drwy gael eu darparu yn y fan a lle, i gleientiaid o bob maint.

Mae nifer o enghreifftiau penodol ble bydd rhwydwaith cyflymach yn gwneud gwahaniaeth. Mae rheoli perthynas y cwsmer, y gallu i ymchwilio i swm enfawr o gynnyrch ac i gysylltu'n awtomatig gyda'r sefydliadau, ymysg y manteision sydd ar gael.

Dylai cynnydd mewn refeniw ac arbedion cost gyfuno i wneud cwmnïau gwasanaethau ariannol neu broffesiynol yn fwy proffidiol yn gyffredinol.

# Mynediad amser real at wybodaeth a sefydliadau

Gallai ymgynghorwr ariannol wynebu cyfyng gyngor. Maen nhw'n ymweld â chleientiaid ac yn cynnig cyngor ar nifer o wahanol bethau ac yn cyflwyno llyfrynnau a gwybodaeth yn eu cylch. Fodd bynnag, mae'r cleient wedi gwneud ychydig o ymchwil ei hunan ar y Rhyngrwyd neu wedi gweld hysbyseb ar y teledu ac yn ymddangos fel petai'n gwybod cymaint os nad mwy na'r ymgynghorydd ynghylch beth sydd ar gael. Mewn gwirionedd, maen nhw'n cael eu gwybodaeth eu hunain bob dydd ynghylch beth sydd ar gael. Er gwaethaf y systemau preifat sydd ar gael i'r sector ariannol, mae'r cwsmer, ai'n ddefnyddiwr neu'n fusnes, yn gwybod mwy nag erioed o'r blaen.

Y ffordd orau o gwmpas hyn yw dod yn gyfarwydd iawn â'r cwsmer a sicrhau fod ei anghenion yn cael eu diwallu pob amser. Golyga hynny, i bob ddarparydd gwasanaeth proffesiynol gan gynnwys ymgynghorwyr ariannol a hefyd cyfrifwyr, ymgynghorwyr rheoli ac eraill, fod yn rhaid cael wrth law nodiadau rheoli achos trylwyr sy'n gyfan gwbl gywir a chyfredol. Gyda band eang cyflym iawn bydd y nodiadau hyn ar gael i chi mewn amser real o unrhyw le.








## Byddwch hefyd yn gallu cysylltu â systemau allanol. Bydd y rhain yn cynnwys:

- **Banciau –** mae bron iawn bob banc yn cynnig gwasanaeth bancio ar y Rhyngrwyd i gleientiaid, yn y byd busnes a'r byd defnyddiwr
- **Sefydliadau ariannol eraill –** marchnadoedd stoc, tai buddsoddi, llwyfannau ariannu torfol (prin bod yr olaf yn bodoli y tu allan i'r Rhyngrwyd)
- **Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi –** sydd, erbyn hyn, yn dymuno i chi gyflwyno'ch data trwy'r system Porth y Llywodraeth

Yn ogystal, bydd llawer o gleientiaid yn defnyddio meddalwedd sy'n caniatáu i bobl broffesiynol fynd i mewn i'w system gyffredinol. Bydd cyfrifwyr sydd â chleientiaid sy'n defnyddio nifer o becynnau ariannol yn gwybod fod y meddalwedd yn dod gyda 'golwg cyfrifwyr' – eu bod, gyda chysylltiad cyflym a dibynadwy, yn gallu mewngofnodi a gwirio fod yr holl ddatganiadau TAW ac eraill cwmnïau'n gyfredol.

Mae hyn oll yn gofyn am gysylltiad cyflym a'r dechnoleg gywir i weithredu.

# Cael buddion technoleg




## Mae llawer o dechnolegau ar gael i'r sector gwasanaethau proffesiynol. Dylech allu manteisio ar:

**Weithio o bell –** er mwyn i bobl allu cipio data mewn amser real a'i osod yn syth ar eich systemau. Cofiwch, fodd bynnag, am ddiogeledd – gweler ein hadran ar 'awgrymiadau gorau' a'r eitem ar rwydweithiau preifat rhithwir.

**Mae'n bosibl cydweithio** gyda phobl broffesiynol eraill gyda chysylltiad cyflymach trwy dechnolegau dynodedig - megis rhwydweithiau tebyg i lawer o gyfryngau cymdeithasol sydd ar gael, negeseua sydyn, Llais dros y Rhyngrwyd a chynadledda fideo. Mae pob un yn rhatach na ffôn ac mae pob un yn gofyn am gysylltiad cadarn, cyflym â'r rhyngrwyd. Gallwch ystyried Skype for Business (efallai bydd eich contractwr TG yn ei alw'n Microsoft Lync) a'i gystadleuwyr i ddechrau cysylltu gydag IM, ychwanegu pobl ato a hefyd symud i fyny i lais a fideo.







**Dilysu –** mae'r Rhyngrwyd yn frith o storiau am werthwyr ym mhob math o feysydd yn gwerthu ac yna'n canfod fod hynny'n troi'n llwch gan fod ataliad credyd ar y prynwyr oherwydd dyfarniad llys sirol yn eu herbyn neu am ryw reswm arall. Byddai gallu cysylltu ar amrant a gwirio'ch cronfa ddata yn arbed y math yma o wastraff amser.

**Adfer trychineb a chynllunio parhad busnes –** bydd gofyn i chi gynllunio ar gyfer pob posibilrwydd. Gallwch ddewis, gyda chysylltiad band eang cyflym iawn, ddefnyddio system wedi'i gwesteia – mewn geiriau eraill mae'ch system cyfrifiadurol ar galedwedd rhywun arall ond, gyda chysylltiad mor gyflym, mae'n teimlo fel eich bod yn defnyddio'ch cyfrifiadur eich hunan. Golyga hyn, hyd yn oed petai'ch caledwedd chi yn malu'n yfflon, y gallech gael un arall heb i hynny effeithio ar eich busnes.

**Pwynt perthnasol** yw na fyddwch bellach yn dibynnu cymaint ar unrhyw un ddyfais ag o'r blaen. Daw mewnosod data trwy ap ffôn clyfar, ap tablet neu liniadur yn hawdd oherwydd mai dim ond un gronfa ddata sy'n cael ei defnyddio.



# Gwasanaethu eich cleientiaid a'ch busnes yn well

**Y canlyniad yn y diwedd yw y bydd eich busnes yn gwasanaethu cleientiaid yn well ac yn rhedeg yn llyfnach.**

Y canlyniad yn y diwedd yw y bydd eich busnes yn gwasanaethu cleientiaid yn well ac yn rhedeg yn llyfnach. Bydd eich cysylltiadau a'ch cwsmeriaid yn rhwyddach ac yn llyfnach wrth iddyn nhw allu cyfathrebu trwy gyfryngau cymdeithasol, ffôn neu e-bost (cofiwch: gwnewch yn siŵr fod gennych system dda i reoli perthynas y cwsmer a fydd yn casglu'r holl wybodaeth o bob ffynhonnell er mwyn i chi allu rheoli achosion yn gadarn).







Dylech sylwi eich bod yn talu llai am gyfathrebu wrth ddefnyddio Llais Dros y Rhyngrwyd yn hytrach na'r ffôn ac os ydych yn dewis Meddalwedd fel Gwasanaeth, sef talu i ddarparydd am feddalwedd yn ôl y defnydd yn hytrach na'i brynu, bydd eich costau meddalwedd yn symud o fod yn wariant cyfalaf i fod yn wariant refeniw. Byddwch hefyd yn gallu diweddaru'ch gwefan ar amrant gyda'r meddalwedd cywir.

# Awgrymiadau

**Byddwch yn cael eich rheoleiddio** gan y Ddeddf Gwarchod Data a darnau eraill o ddeddfwriaeth. Mae'r rhain yn gwahardd personél y sector ariannol rhag cadw data ariannol cleientiaid y tu allan i'r wlad – mae'n hanfodol, os ydych yn defnyddio gwasanaeth y cwmwl, eich bod yn sicrhau fod gweinyddion y darparydd wedi'u lleoli yn y DU.

**Diogeledd sy'n cyfrif fwyaf.** Peidiwch byth â chymryd yn ganiataol ddiogeledd darparydd y cwmwl na'i wasanaeth gwesteia, polisïau ffeiliau wrth gefn ac adfer trychineb; maen nhw'n amrywio. Yn ddelfrydol, dewiswch bartner sydd â hanes o weithio yn y sector gwasanaethau ariannol a phroffesiynol, bydd yn gyfarwydd â'r cyfyngiadau.





**Mae dau fath o wasanaeth y cwmwl ar gael.** Mae'r cwmwl cyhoeddus yn rhatach a gall sefydliadau eraill rannu y gofod yn y gweinydd sy'n cadw eich data a'ch rhaglenni; mae cwmwl preifat yn golygu eich bod yn cael rhan o weinydd i gyd i chi'ch hunan. Mae'n rhaid cael cwmwl preifat ar gyfer gwybodaeth ariannol sensitif ond mae'n costio mwy - ond nid oes raid ei gael ar gyfer y cyfan o'ch gwaith swyddfa gefn.

**Bydd gallu rhannu ffeiliau** far gyfer staff maes yn arbed amser ac arian - ond, unwaith eto, mae'n rhaid bod yn gwbl ddiogel. Efallai y dylech ofyn am gyngor ynghylch rhwydweithiau preifat rhithwir er mwyn sicrhau nad yw'ch data'n mynd ar Ryngrwyd cyhoeddus.

**Bydd cynadledda fideo** yn arbed llawer o amser i chi ond mae angen amser i ddysgu sut i'w ddefnyddio. Nid yw cyfathrebu trwy sgrîn yn dod yn naturiol a bydd yn rhaid i chi dysgu technegau i gynnal cyfathrebu – amrywio tôn y llais a goresgyn yr anhawster o gadw cyswllt llygaid, er enghraifft.

# Cyflymu Busnesau Cymru

I ategu'r broses o gyflwyno band eang cyflym iawn ledled Cymru, gallwch gael cyngor ar beth allwch ei wneud unwaith y bydd ar gael i chi, a beth allwch ei wneud yn y cyfamser, i sicrhau bod eich busnes yn cael y mwyaf o fand eang cyflym iawn.

- Tyfu eich busnes
- Cynyddu effeithlonrwydd
- Cynyddu elw
- Hybu cynhyrchiant
- Gostwng eich costau

Am ragor o wybodaeth ac i lwytho i lawr eich Canllawiau 'Sut i...' YN RHAD AC AM DDIM, ewch i:

www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy

Ffôn: 03000 6 03000

Cadwch yn gyfredol – dilynwch ni ar:

Busnes Cymru
Business Wales

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

Llywodraeth Cymru
Welsh Government